# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0643(ECT) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ar 15 Gorffennaf 2008

**At Kirsty Williams:**

Rwy'n ysgrifennu i ateb y cwestiwn a holoch yn y cyfarfod llawn ar 9 Gorffennaf ynglŷn â gwerth y petrol yng Nghanllawiau Cynllunio a Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru. Roeddech am wybod y gost rwy'n ei rhagweld ar gyfer olew ac felly'n ei ddefnyddio i asesu cost cynlluniau. Nid yw Canllawiau Cynllunio a Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru yn defnyddio pris cyfredol petrol, fell mae'r ateb i'ch cwestiwn yn un cymhleth.

Fel arfer cynhelir y gwerthusiad dros 60 mlynedd. Mae'r feddalwedd dadansoddiad cost a budd yn cyfrifo cost tanwydd, toll tanwydd a TAW mewn ceiniogau fesul litr. Caiff cost tanwydd ei ymgorffori mewn 'Costau Gweithredu Cerbyd'. Mae'r costau hyn yn cynnwys tanwydd, olew a theiars, ac elfen o gynnal a chadw cerbyd.

Caiff costau a manteision mewn blynyddoedd gwahanol eu mynegi yn ôl eu gwerth o safbwynt blwyddyn benodol, sef 'y flwyddyn werth gyfredol', neu'r 'flwyddyn sylfaen pris'. 2002 yw flwyddyn hon ar hyn o bryd. Caiff y costau a'r manteision mewn blynyddoedd gwahanol eu trosglwyddo i'w gwerthoedd cyfredol drwy ddisgowntio. Yn y DU, 3.5% yw cyfradd ddisgownt y 30 mlynedd gyntaf, a 3% wedi hynny. Mae cyfrifo'r costau cyfredol a'u tynno werth cyfredol y manteision yn rhoi 'gwerth cyfredol net' y cynllun gyda phrisiau 2002 wedi'u disgowntio i 2002.

Mae Canllawiau Cynllunio a Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru yn tablu'r paramedrau costau gweithredu cerbyd tanwydd ar gyfer gwahanol gategorïau cerbyd. Caiff y paramedrau hyn eu troi yn geiniogau fesul cilomedr drwy luosi cost adnoddau tanwydd ym mhrisiau 2002. Dyma'r ffigurau gwirioneddol a gyhoeddwyd yn "Transport Statistics Great Britain" (DfT 2005). Mae'r gost adnoddau yn net o drethu anuniongyrchol. Mae Canllawiau Cynllunio a Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru hefyd yn dangos y twf a ragwelir yng nghost adnoddau tanwydd hyd at 2025.

Cynhelir gwerthusiad o'r seilwaith trafnidiaeth dros gyfnod hir. Mae'r feddalwedd sy'n prosesu elfen danwydd costau gweithredu cerbyd yn ystyried newidiadau dros gyfnod mewn categorïau cerbyd, o ran cyfran y ceir sy'n defnyddio petrol neu diesel, gwelliannau i effeithlonrwydd cerbydau a newidiadau i gost tanwydd. Mae'r Adran Drafnidiaeth (DfT) wrthi'n gwneud ymchwil i wella cadernid y fethodoleg.

Yn 2007, lansiodd yr Adran Drafnidiaeth ymgynghoriad ar Adnewyddu NATA (Dull Newydd o Werthuso). Mae fframwaith NATA yn cynnwys cyfarwyddyd, offer dadansoddi, tybiaethau cyffredin am dueddiadau trafnidiaeth, data a chymorth cysylltiedig i'r rheini sy'n asesu ymyriadau trafnidiaeth. Mae NATA yn cynnwys WebTAG, rhagolygon modelu, pecynnau meddalwedd fel COBA, TUBA a QUADRO a chyngor technegol arall. Daeth yr ymgynghoriad ar Adnewyddu NATA i ben ar 31 Mawrth 2008, ac mae'r Adran Drafnidiaeth wedi cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion.

Caiff unrhyw newidiadau i gost tanwydd yn y dyfodol yn sgil yr adolygiad eu hadlewyrchu yng Nghanllawiau Cynllunio a Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru.